

Beth yw'r ffactorau sy'n annog pobl i gymryd rhan neu i beidio â chymryd rhan mewn chwaraeon?

Ffactorau diwylliannol-gymdeithasol mewn chwaraeon

Pennod 5

Er mwyn ateb y cwestiwn mawr bydd angen i chi allu cwblhau'r tasgau canlynol:

1. Asesu'r ffactorau sy'n effeithio ar gyfranogiad mewn chwaraeon (AA3).

2. Dadansoddi'r agweddau moesegol sy'n effeithio ar gyfranogiad a pherfformiad mewn chwaraeon (AA3).

3. Asesu darpariaeth chwaraeon yn genedlaethol ac yn lleol (AA3).

4. Dadansoddi agweddau masnachol ar chwaraeon yn y byd sydd ohoni (AA3).

Cyfranogiad mewn chwaraeon

Asesu'r ffactorau sy'n effeithio ar gyfranogiad mewn chwaraeon (AA3).

Mae cyfranogiad mewn chwaraeon yn cael ei ddylanwadu gan sawl ffactor cymdeithasol, fel oedran, rhywedd, anabledd ac ethnigrwydd pobl a gan grwpiau cymdeithasol.

Mae'n bwysig peidio â stereoteipio unigolion ar sail ffactorau cymdeithasol. Fodd bynnag, gall dealltwriaeth o ddylanwad posibl ffactorau cymdeithasol helpu i wella cyfranogiad ymhlith pobl mewn grwpiau penodol. Gall dealltwriaeth helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb mewn chwaraeon.

I'w drafod ymhellach

Ar gyfer pob un o'r grwpiau cymdeithasol canlynol:

Gwnewch waith ymchwil i ystadegau sy'n dangos cyfraddau cyfranogiad

Disgrifiwch rai o'r rhwystrau i gyfranogiad sy'n wynebu pobl

Disgrifiwch rai o'r ymgyrchoedd sydd wedi cael eu lansio i gynyddu cyfranogiad yn y grwpiau cymdeithasol hyn

- Oedran
- Rhywedd
- Ethnigrwydd
- Anabledd
- Dosbarth cymdeithasol

Ffactorau moesegol

Dadansoddi'r agweddau moesegol sy'n effeithio ar gyfranogiad a pherfformiad mewn chwaraeon (AA3)

Yn y byd chwaraeon, fel ym mhob sefydliad arall, rhaid i gyfranogwyr gadw at gyfres o reolau ysgrifenedig ac anysgrifenedig. Mae disgwyl i gyfranogwyr ymddwyn yn gyfrifol i sicrhau parch a chwarae teg yn ogystal â diogelwch. Mae yna werthoedd cymdeithasol cyffredin y mae disgwyl i bawb gadw atynt. Yn anffodus, fel y gwyddwn, nid yw hyn yn digwydd bob amser. Yn aml, mae pobl ym myd y campau'n plygu'r rheolau neu'n twyllo hyd yn oed i geisio ennill mantais.

Mae **sbortsmonaeth** (sportsmanship) yn golygu chwarae yn ysbryd y gêm. Dyma'r ddelfryd a gallai gynnwys ymddygiad fel cyfaddef i'r bêl groesi'r llinell ar gyfer gôl yn eich erbyn.

Mae **trechafwriaeth** (gamesmanship) yn golygu plygu'r rheolau er mwyn ceisio cael mantais ond heb dwyllo e.e. mewn gêm bêl-droed, honni mai chi ddylai gael y tafliad er eich bod chi'n gwybod i'r bêl eich taro chi ddiwethaf.

Mae **gwyredd** (deviance) yn digwydd pan fydd unrhyw un sy'n ymddwyn mewn ffordd sydd yn fwriadol yn torri rheolau neu foeseg y gamp. Gall yr ymddygiad hwn fod ar sawl ffurf wahanol yn cynnwys trais, llwgrwobrwyo i ddylanwadu ar y canlyniadau, betio anghyfreithlon neu gymryd cyffuriau i wella perfformiad.

I'w drafod ymhellach:

Beth yw'r prif ddelfrydau Olympaidd? I ba raddau mae'r Gemau Olympaidd yn cynnal y delfrydau hyn?

Trafodwch foeseg cymryd cyffuriau i wella perfformiad.

Darpariaeth chwaraeon

Asesu darpariaeth chwaraeon yn genedlaethol ac yn lleol (AA3)

Mae llawer o asiantaethau fel campfeydd a chanolfannau hamdden y sector cyhoeddus a'r sector preifat, ysgolion a chlybiau lleol a chenedlaethol yn darparu ar gyfer chwaraeon.

Mae llywodraeth leol a chenedlaethol a / neu arian loteri yn talu am **gyfleusterau'r sector cyhoeddus** . Gallai'r rhain gynnwys:

- Canolfannau Chwaraeon/Hamdden y Cyngor
- Cyfleusterau chwaraeon/hamdden cymunedol e.e. meysydd 4G
- Ysgolion a'u cyfleusterau AddGorff/chwaraeon
- Pyllau nofio cyhoeddus

Mae **cyfleusterau'r sector preifat** yn cael eu rhedeg gan gwmnïau am elw, ac maent yn glybiau i aelodau'n unig yn aml

Cwblhewch y tabl canlynol i nodi manteision cyfleusterau cyhoeddus a phreifat.

	Sector cyhoeddus	Sector preifat
Cost		
Cyfleusterau/cyfarpar		
Natur ddethol		
Ffocws cymunedol		
Hyfforddi		

Yn ogystal â'r uchod mae yna **sector gwirfoddol** cryf yn y DU hefyd. Mae llawer o glybiau a sefydliadau chwaraeon lleol sy'n cynnig gweithgareddau chwaraeon yn cael eu rhedeg gan y sectorau gwirfoddol e.e. clwb rygbi lleol, clwb pêl-rwyd, clwb rhedeg.

Manteision clybiau'r sector gwirfoddol:

- Cost isel
- Hyfforddi am ddim
- Datblygu ethos cymunedol
- Annog cyfeillgarwch ac agweddau cymdeithasol

Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol

Un darparwr allweddol arall chwaraeon a gweithgaredd corfforol yw'r ysgol. Gallai hyn fod fel rhan o gwricwlwm yr ysgol neu chwarae i dîm yr ysgol.

Manteision Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol:

- Gallu gwneud gweithgaredd corfforol yn well (llythrennedd corfforol)
- Gwybodaeth a sgiliau i barhau i gymryd rhan mewn gweithgareddau
- Brwdfrydig ac awyddus i gymryd rhan
- Manteision iechyd corfforol, meddyliol a chymdeithasol
- Annog cyfranogiad gydol oes
- Manteision ar draws yr ysgol - mwy o hunanhyder a gwell cyrhaeddiad academaidd

Crynodeb

- Mae chwaraeon yn cael eu darparu ar lefel leol a chenedlaethol
- Mae'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i gyd yn darparu cyfleusterau chwaraeon
- Mae rhaglenni addysg gorfforol a chwaraeon ysgolion yn bwysig hefyd

I'w drafod ymhellach:

Ymchwiliwch i ddarpariaeth y sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol yn eich ardal.

Masnacheiddio chwaraeon

Dadansoddi agweddau masnachol ar chwaraeon yn y byd sydd ohoni (AA3).

Mae chwaraeon yn cael eu rheoli a'u marchnata fwyfwy i wneud arian. Mae'r cyfryngau, yn cynnwys Sky Sports, yn ddylanwad pwysig ar chwaraeon yn y byd sydd ohoni. Dylai'r agwedd hon gael ei chysylltu â'r foeseg mewn chwaraeon a drafodwyd mewn pennod flaenorol.

Mae gwneud arian o chwaraeon yn dibynnu ar y *triongl aur* honedig, h.y. y cysylltiad rhwng y gamp ei hun, y cyfryngau a noddwyr.



Y cyfryngau a chwaraeon

Mathau o gyfryngau

- Teledu - lleol a chenedlaethol; Freeview; tanysgrifio/talu wrth wylio (pay-per-view); ar alw; lloeren neu gebl.
- Radio - lleol a chenedlaethol.
- Y wasg - papurau newydd (lleol, cenedlaethol, dyddiol, wythnosol); cylchgronau.
- Rhyngrwyd - gwefannau; blogiau; cyfryngau cymdeithasol.

Mae **nawdd** yn digwydd ar sawl ffurf wahanol fel;

- Unigolion - arddangos logo; gwisgo brand arbennig; cymeradwyo cynhyrchion
- Timau a chlybiau - gwisgo cit; enw ar stadiwm/stand
- Chwaraeon - ailenwi cystadlaethau, cwpanau a chynghreiriau

I'w drafod ymhellach:

Rhestrwch fanteision nawdd i:

1. Y gamp
2. Y noddwr

Rhowch ambell i enghraifft o agweddau negyddol ar nawdd

Cwblhewch y tabl isod i restru manteision ac anfanteision gwahanol gyfryngau

Cyfryngau	Manteision	Anfanteision
Teledu		
Radio		
Y wasg		
Rhyngrwyd		

Rhowch enghreifftiau o sut mae'r cyfryngau wedi dylanwadu ar chwaraeon yn y blynyddoedd diwethaf.

Cydnabyddiaethau

Tudalen	Disgrifiad o'r Ddelwedd	Cydnabyddiaethau
Clawr	Rhedeg (delwedd y clawr)	Geber86 / Getty Images
6	Pêl-droed plant	Wikimedia Creative Commons http://bit.ly/2d0IBU2